

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, LLANELLI, 2000  
DARLITH CYMDEITHAS Y CYFREITHWYR

**Y CYNULLIAD  
CENEDLAETHOL:  
BLWYDDYN O OSOD  
SYLFEINI**

**Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies**



**CYMDEITHAS Y CYFREITHWYR**



# DARLITH GYFREITHIOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU, LLANELLI, 2000

## Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL: BLWYDDYN O OSOD SYLFEINI

Carwn ddiolch yn gynnes i Gymdeithas y Cyfreithwyr – cymdeithas fy newis broffesiwn – am ei gwahoddiad caredig i draddodi darlith flynyddol y Gymdeithas yn yr Eisteddfod ac i drafod datganoli i Gynulliad Cymru, pwnc sy'n agos at fy nghalon.

Mae'n briodol iawn ein bod yn trafod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Llanelli, oherwydd bu cyfraniad James Griffiths, Aelod Seneddol Llanelli ac Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru, i achos datganoli yn ystod pymtheng mlynedd olaf ei fywyd yn allweddol. Yn y Blaidd Lafur, ef, yn anad neb arall, a roes gyfreithlondeb i'r syniad o Gynulliad etholedig i Gymru. Roedd ei fri a'i awdurdod mor uchel yn y Mudiad Llafur fel na fedrid anwybyddu ei farn. Yn y chwe degau a'r saith degau bu'n un o'r dylanwadau pwysicaf fu'n cefnogi'r tueddiadau a fyddai erbyn diwedd y ganrif yn esgor ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, corff cenedlaethol wedi ei ethol ar sail gyfrannol gan bobl Cymru, yn cymryd y pwerau gweithredol, yr hawliau a'r dyletswyddau oedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â'i awdurdod i wneud is-ddeddfau, a chanddo gyllideb flynyddol sylweddol.

Petai James Griffiths yn fyw buasai'n gweld bod sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn drobwynt hanesyddol a gobeithiol yn hanes ei genedl. Buasai'n cynghori fel erioed 'Deuparth gwaith ei ddechrau'.

Aeth blwyddyn heibio ers trosglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Cofier na chafodd ddim cyfnod rhagbaratoawl. Ni fu'r flwyddyn yn daith esmwyth. Cariwyd pleidlais o ddiffyg hyder yn erbyn y Prif Ysgrifennydd cyntaf. Mae ei lywodraeth yn un leiafrifol. Bu anawsterau na allai neb fod wedi eu rhagweld a chododd eraill na ellir eto fod yn sicr o'u harwyddocâd. Rydym yn ymwybodol o bryder ar ran llawer o'i bleidwyr, petruster yr amheuwyr a gwatwar ei wrthwynebwyd. At hynny ychwaneger siniciaeth y gymdeithas am yr hyn y gall gwleidyddiaeth ei gyflawni, heb sôn am y siniciaeth oesol yng Ngwynedd na ddichon dim daioni ddod o'r Sowth. Serch hyn oll, o'r hir ddiwedd, dyma flwyddyn fawr iawn ymlaen yn hanes ein gwlad. Mae gwynt cyfnewidiadau yn chwythu trwy Gymru.

Nid gwaith hawdd ydi codi sefydliad democrataidd newydd sbon a'i gael i weithio'n llyfn ac effeithiol ac yn deilwng o ymddiriedaeth yr etholwyr. Mae gwersi i'w dysgu ac anawsterau i'w goresgyn. Dyna hefyd ydi'r neges a ddaw atom y dyddiau yma o'r Alban ac o Ogledd Iwerddon. Felly cyn fy mod i'n manylu ar agweddau ar weithgarwch Cynulliad Cymru mi garwn i gydnabod yn

ddiolchgar y gwaith mawr a gyflawnwyd o ddydd i ddydd gan aelodau a staff y Cynulliad ers ei sefydlu, gan gofio bod ei weinidogion a'r rhan fwyaf o'r aelodau cyffredin heb brofiad o weithio mewn na Senedd na Chyngor Sir.

Mae'n werth ailadrodd pam y sefydlwyd y Cynulliad. Ni cheir yr un cyfeiriad yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 ('Deddf Cymru') at bwrpas a nod y Cynulliad. Ond rhoes yr Arglwydd Irvine, yr Arglwydd Ganghellor, ateb i'r cwestiwn mewn darlith<sup>1</sup> a draddododd i Uned y Cyfansoddiad<sup>2</sup> ar y diwygiadau cyfansoddiadol newydd yn y Deyrnas Unedig. Dyma'i eiriau:

The new **Scottish Parliament** will have the power to pursue a distinctive legislative agenda for Scotland over an extensive range... There we were building on the work of the Scottish Constitutional Convention<sup>3</sup> and therefore on the wishes of the people of Scotland. In contrast to the Scottish Parliament, the **National Assembly for Wales** will have no power to enact primary legislation; rather, it will serve an executive function, exercising the executive powers previously exercised by the Secretary of State for Wales, so providing a more transparent and democratic framework for the government of Wales.

Felly, ym marn yr Arglwydd Ganghellor, un o brif benseiri'r setliad cyfansoddiadol, y prif reswm dros sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd cryfhau democratiaeth yn Nghymru.

Fe'i crewyd i wasanaethu'r diben hwnnw. 'Does dim cynsail iddo ymhlith cyrff democrataidd eraill. Fe'i disgrifiwyd yn y Rhagair i'w Reolau Sefydlog fel 'ffurf newydd ar ddemocratiaeth i Gymru'. Creadigaeth Senedd San Steffan yw Cynulliad Cymru. Gall San Steffan ddiwygio, cryfhau ac ychwanegu at ei bwerau ac, o ran theori – ond theori'n unig, mi gredaf – ei ddrymu. Yn barod fe ofynnir a ydi gweithgarwch y Cynulliad wedi gwella ansawdd safon ein byw? 'Dyw'r cwestiwn ddim yn un teg i'w ofyn wedi cwta flwyddyn. Ond mae'r wers yn glir. Pan ddaw'r etholiad cyffredinol nesaf i'r Cynulliad yn 2003, bydd yn gwestiwn teg i'r etholwr ei ofyn y pryd hwnnw.

Bu rhagdybiaethau pobl yn afreal mewn dau gyfeiriad yn arbennig. Yn gyntaf, bu llawer o'r arweinwyr yn rhy barod i addo'r Jeriwsalem newydd a phethau gwyach i ddod yn fuan. Hwyrach bod hyn yn ddealladwy gan mai gwaith y gwleidydd llwyddiannus ydi ennill ymlyniad i'w achos. 'Dyw e ddim yn was sifil yn pwyso a mesur pob un o'i osodiadau yn ofalus. Yn yr ail le, tyfodd y gred y byddai'r Cynulliad, yn bennaf oherwydd bod ei aelodau wedi eu hethol ar sail cynrychiolaeth gyfrannol<sup>4</sup>, yn gweddnewid natur gwleidyddiaeth Cymru. Byddent yn ymwrthod â gwleidyddiaeth bleidiol a dadleuol San Steffan, ac mewn ysbryd cynhwysfawr yn cydweithio'n hapus â'u llygaid ar les Cymru. Ond mae pleidiau gwleidyddol yn eu hanfod yn bleidiol ac yn rhannu.

Ond yn ddiwestiwn mae llais democratiaeth yn llywodraeth Cymru eisoes yn fwy

byw ac yn gryfach nag a fu erioed yn y gorffennol yn rhinwedd bodolaeth y Cynulliad. Mae llawer iawn o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl Cymru bellach yn cael eu gwneud yng Nghymru gan gynrychiolwyr etholedig pobl Cymru ac wedi eu hethol yn unswydd i'r pwrpas hwnnw. Heddiw, bydd naw o weinidogion, yn hytrach na thri, yn arolygu gwaith y gweision sifil yng Nghaerdydd, ac o reidrwydd yn ei arolygu'n drylwyrach am y rheswm syml eu bod yn medru treulio mwy o amser ar bob pwnc. Heddiw, yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol yn ateb, ar lafar, tua 6-7 o gwestiynau, ar gyfartaledd, ar lafar, tua'r nifer hwnnw, bydd ysgrifenyddion y Cynulliad yn ateb, ar lafar, tua'r nifer hwnnw, ar gyfartaledd, yn siambr y Cynulliad, yn mhob un o'r ddau Gyfarfod Llawn bob wythnos, ynghyd ag ateb y cwestiynau a ofynnir yng nghyfarfodydd y pwyllgorau pwnc a rhanbarthol sy'n agored i'r wasg. Dyna newidiadau radical a chynhenid werthfawr. 'Does bosib na fydd dwyn yr elfen leyg gref hon i mewn i lywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru.

Megis o dan Ddeddf Cymru 1978, cyfrifoldeb am bwerau penodol mewn meysydd penodol, nid cyfrifoldeb am feysydd cyfan, a drosglwyddwyd i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Mae ei hawl i wneud is-ddeddfau ymhlith y pwysicaf o'i gyfrifoldebau. 'Dyw'r term 'is-ddeddfwriaeth' ddim yn hawdd i'w amgyffred gan y lleygwr. Mae'n cynnwys rheolau, rheoliadau, gorchmynion a chodau ymarfer. (Defnyddir y ddau derm 'is-ddeddfwriaeth' ac 'offeryn statudol' yn gyfystyr â'i gilydd.) Mae'r gair 'is-ddeddf' ei hun yn awgrymu bod ei chynnwys yn israddol. O ran eu pwysigrwydd mae is-ddeddfau yn amrywio'n fawr. Ond maen nhw i gyd yn gyfreithiol rwymol ac yn bwysig i'r sawl y maen nhw'n effeithio arno. Yn y Deyrnas Unedig ac yng ngwledydd y Gymanwlad gwneir defnydd helaeth dros ben o is-ddeddfau. Erbyn hyn yn San Steffan ceir llifeiriant ohonyn nhw – rhyw 3,000 y flwyddyn – a'r mwyafrif llethol heb fod yn destun na dadl na phleidlais yn y Senedd. Rhagwelir y gwneir hyd yn oed mwy o ddefnydd o is-ddeddfau yn y dyfodol. At hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Mesur<sup>5</sup> ar ffurf drafft a fyddai'n ehangu'n sylweddol yr hawl i ddiwygio deddfau sylfaenol trwy gyfrwng math newydd o orchymyn dadreoleiddio sy'n ffurf ar is-ddeddfwriaeth. O gofio'r cefndir hwn, mae'n anodd gorbwysleisio'r cyfrifoldeb sydd ar y Cynulliad i wneud defnydd llawn o'i awdurdod deddfwriaethol pan fo anghenion Cymreig yn galw am hynny. Yr is-ddeddfau hyn ydi deunydd crai yr hyn y gellir ei alw yn 'Gyfraith Cymru'.

Un o gryfderau Cynulliad Cymru ydi bod ganddo nid yn unig yr hawl i gymeradwyo neu i wrthod cymeradwyo is-ddeddfwriaeth, ond yn ogystal i'w **diwygio** yn ei ffurf drafft. Mae hyn mor wahanol i'r drefn yn San Steffan. Yno gwaherddir y Senedd rhag **diwygio** is-ddeddfwriaeth. Rhaid iddi fodloni ar ei chymeradwyo neu ei gwrthod yn ei chrynswth. Dyna wendid sylfaenol yn y *status quo* – gwendid sy'n destun beirniadaeth gynyddol gan seneddwyr, arbenigwyr mewn cyfraith gyfansoddiadol ac eraill. Sylwodd rhai o'r beirniaid y medrai'r ddarpariaeth Gymreig i ddiwygio is-ddeddfwriaeth (a geir yn adran 58 o Ddeddf Cymru) fod yn fodel ar gyfer y Senedd hithau:

The Welsh Assembly has found a way of debating and, if the majority so wish, amending secondary legislation. Can we learn from it? <sup>6</sup>

Dyna eiriau Ralf Dahrendorf. Geiriau clodforus, yn wir.

'Dyw llawer o weithgaredd pwysig llywodraethu ddim yn ymwneud â deddfwriaeth o gwbl ond eto, mae lle i gredu mai ei fethiant i lawn ddefnyddio ei bŵer pwysig i wneud is-ddeddfau yw rhan go fawr o broblemau'r Cynulliad. Ydi hyn yn gam-argraff? I roi ateb pendant i'r cwestiwn mae angen gwybodaeth gynhwysfawr a manwl am bob un o'r is-ddeddfau a gymeradwywyd gan y Cynulliad ynghyd â hanes ei thaith trwy'r Cynulliad. Er i mi holi ac ymchwilio hyd y medrwn, ymddengys i mi nad yw'r wybodaeth hon eto ar gael mewn digon o fanylder nac mewn ffurf y gellir yn hawdd ei defnyddio gan rywun o'r tu allan i roi ateb pendant i'm cwestiwn. Byddai'n gymwynas fawr pe medrem gael mwy o ddogfennau'r Cynulliad yn hwylus mewn print.

Fodd bynnag, carwn gynnig rhai sylwadau cyffredinol. Fy man cychwyn ydi darlith gyfreithiol flynyddol y Gymdeithas hon a draddodwyd y llynedd gan Winston Roddick, Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad<sup>7</sup>. Ar ôl iddo bwysleisio y byddai gwneud is-ddeddfwriaeth ymhlith swyddogaethau pwysicaf y Cynulliad, rhagwelai 'y byddai cynnydd o ryw 180 o offerynnau statudol y flwyddyn'. Cymeradwywyd tua 200 (gan gynnwys rhai lleol eu natur, mae'n wir) erbyn diwedd Mehefin eleni sy'n gyson â'i amcangyfrif. Hefyd cafwyd cadarnhad gan y Trefnydd Busnes nad oes dim deddfwriaeth wedi mynd ar goll fel yr honnwyd<sup>8</sup>. Ond mae cwestiwn arall yn codi: i ba raddau mae'r is-ddeddfau a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn gwyro oddi wrth y rhai cyfatebol ar gyfer Lloegr? Sylwais fod Nick Bourne (yr arweinydd Ceidwadol) yn gofyn mor ddiweddar â mis Mehefin am y wybodaeth hon mewn perthynas â phob is-ddeddf pan roddir ystyriaeth iddi gan y Pwyllgor Deddfwriaeth<sup>9</sup>. Heb y wybodaeth hon mae'n amhosib dweud i ba raddau mae'r is-ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad yn wahanol ac yn fwy addas ei chynnwys na'r is-ddeddfwriaeth y byddai'r Swyddfa Gymreig yn debygol o fod wedi ei llunio i gwrdd â'r un sefyllfa. Mae cwestiwn pellach sydd o bwys: sawl is-ddeddf ar ffurf drafft a gafodd ei diwygio, neu y ceisiwyd ei diwygio gan bwyllgor pwnc neu'r Cynulliad? Byddai pawb yn cytuno na ellir gwella perffeithrwydd, ond anfynych y ceir hwnnw. Felly, rhan hanfodol o swyddogaeth yr wrth-blaid mewn unrhyw Gynulliad neu Senedd ydi archwilio'r deddfwriaeth drafft yn drefnus ac yn drylwyr â'r llygaid er ei gwella. Eto, oni bai fy mod yn camgymryd yn fawr amheuaf a ddiwygiwyd, yn ystod y flwyddyn gyntaf, fwy nag un neu ddwy o'r gorchmynion statudol drafft, tra buaswn i ac eraill sy'n fwy cymwys na mi yn rhyw dybio, os yw'r Cynulliad am atgyfnerthu ei sefyllfa a'i ddadl dros gael awdurdod i wneud deddfau sylfaenol, y byddai'n llwyddo i wella o leia 10% o'r is-ddeddfau yn eu ffurf drafft.

Ystyriwn (er enghraifft) y ddadl a fu yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin (dadl a barhaodd am ddeng munud yn unig) ar *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Dewis Meddyg Teulu) (Diwygio) (Cymru)*. Gwelir o ddarlflen *Y Cofnod*<sup>10</sup> nad oedd tri o'r Aelodau yn gwbl hapus ar ryw agwedd neu'i gilydd o'r Rheoliadau. Ond ni

chyflwynwyd cynnig i'w gwella. Fe'u cymeradwywyd yn eu ffurf drafft, heb newid yr un gair: o blaid 45, ymatal 0, yn erbyn 0. Pam na roddwyd gwelliant gerbron? Oes prinder adnoddau ar gyfer y gwrth-bleidiau a'r aelodau cyffredin i archwilio deddfwriaeth yn effeithiol ac i ddrafftio gwelliannau priodol? Neu eto, gan na chynhelir ond dau Gyfarfod Llawn yr wythnos sy'n para ond am deirawr a hanner yr un, ydi'r amserlen yn caniatáu rhy ychydig o amser ar lawr y Cynulliad i gyfnewid barn ac i sicrhau trafodaeth lawn ar welliannau? Nid yw'n beth dieithr clywed y Trefnydd yn ailadrodd: 'Yn wyneb y cyfyngiadau amser y prynhawn yma'. Mae yna wendid yn y fan hon. Ddiwedd Mai eleni, cyhoeddodd y Trefnydd fod y Pwyllgor Busnes yn ailystyried a ydi'r 'proses o greu is-ddeddfwriaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.'<sup>11</sup> Dyna newyddion da.

Ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf byddai'n amserol iawn i'r Cabinet baratoi a chyhoeddi adolygiad gofalus o'r holl weithgarwch ynghylch yr is-ddeddfwriaeth fu gerbron y Cynulliad gan ddangos yn arbennig:

- 1 nifer yr is-ddeddfau a gymeradwywyd
  - (i) sy'n gwyro oddi wrth y rhai sy'n cyfateb iddynt yn Lloegr ac
  - (ii) sy heb fod yn gwyro;
- 2 nifer yr is-ddeddfau sydd yn gweithredu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (ac sy'n debygol ar hyn o bryd o fod yn unffurf â'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer Lloegr);
- 3 nifer is-ddeddfau cyfansawdd Cymru/Lloegr a gymeradwywyd;
- 4 nifer yr is-ddeddfau drafft a gafodd eu gwella gan y Cynulliad;
- 5 nifer yr is-ddeddfau drafft a ystyriwyd gan bwyllgor pwnc, ond heb eu gwella;
- 6 nifer yr is-ddeddfau sy'n cyfateb i'r rhai yn Lloegr y bu oedi sylweddol ar ran y Cynulliad cyn eu cymeradwyo, gan nodi'r rheswm am yr arafwch;
- 7 sawl tro y penderfynodd y Cynulliad beidio â dilyn Whitehall a gwneud is-ddeddf newydd gan nad yw'r amgylchiadau yng Nghymru yn galw amdani; a
- 8 faint o amser a roddwyd gan
  - (i) y pwyllgorau pwnc, a'r
  - (ii) cyfarfodydd llawn i ystyried is-ddeddfwriaeth.

Byddai'n dda cael adolygiad blynyddol ar hyd y llinellau hyn o hyn allan.

Yn y *Western Mail*<sup>12</sup> ym mis Mai rhoddwyd sylw mawr i'r feirniadaeth lem ar y Cynulliad a leisiwyd gan Alun Michael ar ôl y bleidlais yn ei erbyn o ddiffyg ymddiriedaeth. Gan ei fod yn gyn-Brif Ysgrifennydd y Cynulliad 'dyw hi ddim yn bosibl anwybyddu ei feirniadaeth. Ei brif bwynt oedd nad yw'r Cynulliad wedi defnyddio'n ddigonol y pwerau sy ganddo ac mai diffyg dealltwriaeth yr aelodau cyffredin a'u diffyg profiad ynghyd â ffaelecteddau rhai aelodau blaenllaw sy'n gyfrifol am hyn. A derbyn bod problem, ydi'r feirniadaeth hon yn mynd at ei gwreiddyn? Neu a geir rhan o'r esboniad yn y gweithdrefnau oedd yn newydd ac heb eu profi? Neu yn y ffaith bod y llywodraeth yn un leiafrifol? Neu eto a yw

rhan o'r esboniad yn agwedd meddwl yr uchel weision sy'n cynghori'r Cynulliad ar faterion polisi a deddfwriaeth, ond sy'n dal i fod yn rhy barod i edrych i Lundain am arweiniad? Ymhellach mae grym yng ngwestiwn golygydd y *Western Mail*, os cywir y feirniadaeth, sef onid oes rhan o'r cyfrifoldeb am y sefyllfa ar Alun Michael ei hun am na lwyddodd i roi arweiniad i'r Cynulliad?

Mae'r pwynt arall ym meirniadaeth Michael yn enghraifft benodol a phwysig o'r cyntaf, sef na lwyddodd yr aelodau i ddefnyddio'r pwyllgorau pwnc yn effeithiol. (Ceir awgrym o beth rhwystredigaeth yn ystod y drafodaeth yn y pwyllgor pwnc ar Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar 12 Ebrill, wedi i'r pwyllgor sicrhau'r hawl i gael barn gyfreithiol annibynnol ar Adran y Cwnsler Cyffredinol.<sup>13</sup>) Mae achau'r pwyllgorau pwnc, fel sawl nodwedd arall o Ddeddf Cymru, yn mynd 'nôl i'r cynllun datganoli gwreiddiol yn y saith degau. Hyd at y funud olaf bwriadwyd i'r pwyllgorau hyn (a'u haelodaeth yn adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad ac yn meddu ar ddiddordeb yn y pwnc) fod yn elfen allweddol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Fe'u disgrifiwyd fel 'pwerdai'. Ond pan oedd y Mesur ar ei daith seneddol fe argyhoeddwyd y Llywodraeth y dylid rheoli'r Cynulliad trwy dduill cabinet. Roedd hyn yn newid sylfaenol ac yn gwanhau yn sylweddol swyddogaeth y pwyllgorau pwnc. 'Dyw Deddf Cymru ddim yn diffinio eu cyfrifoldebau, ond fe'u diffiniwyd mewn termau cyffredinol yn y Rheolau Sefydlog [Rheol 9.7]. Gall y Cynulliad ei hun newid ei Reolau Sefydlog a gorau po gyntaf yr ailedrychir ar Reol 9.7.

Mae angen mwy nag areithiau melys i wneud deddfau. Rhaid wrth fedrusrwydd, gwybodaeth a phrofiad. Felly mae cyfraniad y gwasanaeth sifil i lwyddiant y Cynulliad yn allweddol. Byddaf yn holi fy hun weithiau a welwyd yn ddigon eglur y byddai angen cynghorwyr polisi a staff arbenigol ychwanegol ar y Cynulliad os oedd yr aelodau o'r cychwyn cyntaf i wneud y defnydd llawnaf o'i bwerau.

Nid yw cymdeithas yn datblygu o ddim byd. Ni all unrhyw gymdeithas sy'n datblygu o'i llywodraeth yn y gorffennol osgoi'n llwyr y gorffennol hwnnw yn y tymor byr. Swyddogion y Swyddfa Gymreig gynt sydd heddiw yn gwasanaethu'r Cynulliad. Ond mae'r Cynulliad yn gorff etholedig a democrataidd ac ar seiliau gwahanol i'r Swyddfa Gymreig. Byddai uchel weision y Swyddfa Gymreig yn dibynnu'n drwm ar eu cymheiriaid yn yr Adrannau perthnasol yn Whitehall i'w harwain yn y gwaith o baratoi deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a fyddai yn gweithredu yng Nghymru (ar wahân i ddeddfwriaeth yn ymwneud yn neilltuol â phynciau Cymreig, megis y Gymraeg, Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac agweddau ar addysg). Bu gan y Gwasanaeth Sifil yng Nghaerdydd gefndir o ddibynnu ar Lundain, er na fu trafod cyhoeddus ar hyn. Trwy'r holl gyfnod o adeg ei sefydlu yn 1964 hyd at 1999, tybed a luniodd y Swyddfa Gymreig fwy na rhyw 120 o is-ddeddfau (ac eithrio fersynau Cymraeg a rheoliadau lleol eu natur, megis gorchmynion traffig) i Gymru'n benodol? Dw i ddim yn amau ymroddiad y Gwasanaeth Sifil yng Nghaerdydd i'r Cynulliad, ond beth ydi dealltwriaeth y gweision sifil yn Whitehall o athroniaeth datganoli ac anghenion Cynulliad Cymru? Mae lle i ofni nad yw rhai



o'r Adrannau yn Whitehall wedi dod i delerau â datganoli. 'The Whitehall machine does not recognise devolution... There is a mind-set there that needs to be altered,' oedd cyhuddiad y cyn-Ysgrifennydd Amaeth, Christine Gwyther, ar Radio Wales.<sup>14</sup> Efallai mai anesmwythyd am ddealltwriaeth y gweision sifil yn Llundain oedd wrth wraidd y pryder a fynegir yn yr alwad gan rai o aelodau'r Cynulliad am sefydlu gweithgor o dan gadeiryddiaeth y Llywydd i edrych sut mae'r 'gyfundrefn gan gynnwys concordatiau yn gweithredu, yn arbennig o ran deddfu'.<sup>15</sup> Erbyn heddiw sefydlwyd Grŵp Adolygu dan gadeiryddiaeth y Llywydd i archwilio'r prosesau presennol.

Y ddeddfwriaeth sylfaenol (y statud) sy'n awdurdodi creu is-ddeddfwriaeth. Gan nad oes gan Gynulliad Cymru yr hawl i wneud deddfau sylfaenol, mae gennym ni yng Nghymru ddi-ddordeb byw yn y statudau newydd yn arbennig yn y meysydd datganoledig a gaiff eu pasio yn San Steffan. Ceir cyfeiriadau at y Cynulliad mewn tua deunaw o'r statudau a basiwyd eleni.<sup>16</sup> Ond mae'r cyfrifoldebau a roddir i'r Cynulliad ym mesurau eleni yn amrywio'n enfawr o ran sylwedd. Bychan iawn ydi goblygiadau rhai ohonyn nhw i'r Cynulliad. Ar y llaw arall, mae goblygiadau sylweddol iawn i'r Cynulliad ac i Gymru mewn mesurau eraill, megis Mesur Llywodraeth Leol, Mesur Safonau Gofal a'r Mesur Trafnidiaeth. Yn wir, o dan y Mesur Llywodraeth Leol mae'r Cynulliad yn colli rhai o'r pwerau sy ganddo ar hyn o bryd. Os darllenwn y Mesur Trafnidiaeth gwelwn ei fod yn pennu tua deugain o gyfrifoldebau i'w hymarfer gan y Cynulliad mewn perthynas â ffyrdd a gwasanaeth bysys yng Nghymru, ond heb roi unrhyw gyfrifoldeb arno am y rheilffyrdd. Os trown at y Mesur Safonau Gofal, gwelwn ei fod yn sefydlu Comisiynydd Plant Cymru. Dyma enghraifft lachar o ddylanwad y Cynulliad ar waith er gwaethaf gwrthwynebiad cyson yr Adran Iechyd yn Llundain i sefydlu swydd gyffelyb i Loegr. (Arloeswyd swydd y Comisiynydd Plant gan yr elusen Plant yng Nghymru oddi ar 1991 a oedd wedi gwneud llawer iawn o waith ymchwil ynghylch y swydd ac fe'i hargymhellwyd gan y Tribiwnlys Ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yng Ngwynedd a Chlwyd,<sup>17</sup> ond cawsai'r cynnig ei wrthod gan y Swyddfa Gymreig yn 1994.) Fe erys y cwestiwn, a ddylid fod wedi corffori rhagor o gynigion y Cynulliad yn y deddfau sylfaenol a basiwyd eleni?

Mae'n anhepgor bod gan Gabinet y Cynulliad gyfle llawn, yn gyntaf, i gyfrannu at raglen ddeddfu llywodraeth y Deyrnas Unedig ac, yn ail, i gyfrannu cynigion i'w corffori yn y mesurau sylfaenol newydd pan fo ganddo'r cyfrifoldeb am eu gweithredu yng Nghymru. O dan y protocol<sup>18</sup> rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad, ac o dan Adran 31 o Ddeddf Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol ydi'r ddolen gyswllt rhwng Caerdydd a'r Adran yn Whitehall a fo'n hyrwyddo mesur seneddol. Fodd bynnag, ni ellir gorffwys ar fodolaeth protocol gan gymryd yn ganiataol y bydd yn gweithio'n effeithiol. Gall fod yn ddyrys i'w roi ar waith: er enghraifft, gall cynigion Caerdydd fod yn groes i fuddiannau llywodraeth y DU, neu'n isel yn ei rhestr flaenoriaethau. Pwy gaiff glust y Prif Weinidog? A phan fo'r Cabinet yng Nghaerdydd am wella mesur ar y gweill yn Llundain, nid yw'n glir i mi beth fydd y peirianwaith i sicrhau bod y polisi Cymreig yn cael ystyriaeth lawn gan yr adran yn Whitehall – ac mewn pryd –

wrth i'r mesur newydd gael ei lunio a'i ddatblygu. Pan fo gan y Mesur oblygiadau sylweddol i Gymru, a fydd un o weision sifil y Cynulliad yn aelod o'r tîm yn Whitehall a fydd yn gyfrifol am adeiladu'r mesur sylfaenol? Fel arall, pwy fydd yno i graffu ar y mesur drafft i warchod buddiannau Cymru? Os na fydd y ddeddf sylfaenol newydd yn cwrdd yn ddigonol â dyheadau Cabinet y Cynulliad ac yn rhoi cyfle iddo wneud is-ddeddfau i gwrdd ag arbenigrwydd ein hanghenion yng Nghymru gall hyn arwain yn y pendraw at wrthdrawiad rhwng Caerdydd a San Steffan ac ansefydlogrwydd. Yn y fan yma y gwelaf y bygythiad pennaf i'r model datganoli Cymreig.

Parchaf ddisgleirdeb y Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, a'i ymrwymiad i ddatganoli. Wrth ei waith yng nghadair y Llywydd<sup>19</sup>, a'i lygaid led y pen ar agor, bu'n gwarchod yn selog fuddiannau'r aelodau cyffredin, y gwrth-bleidiau ynghyd â buddiannau'r Cynulliad ei hun. Teimlodd ambell dro fod yn rhaid iddo fynegi yn gyhoeddus ei safbwynt ar faterion ei blaid, neu ei safbwynt fel aelod cyffredin o'r Cynulliad. Mae rhyw ennyd o bryder am hyn, oherwydd ofnir y gall danseilio 'cyd-ymdiriedaeth'<sup>20</sup> llywydd, aelodau a swyddogion, yn hytrach na'i meithrin a'i diogelu i'r graddau mwyaf posib.

Ym mis Mawrth eleni bu datblygiad pwysig pan benodwyd i Swyddfa'r Llywydd gynghorydd cyfreithiol annibynnol – yn annibynnol ar Gwnsler Cyffredinol y Cynulliad. Credais erioed fod angen y swydd hon er mwyn cynghori'r Llywyddiaeth ar ei dyletswyddau. Deiliad y swydd newydd oedd David G. Lambert, cyn-Brif Gyfreithiwr y Swyddfa Gymreig. Yna – a dyma'r pryder i rai ohonom – pan oedd aelodau un o'r pwyllgorau pwnc<sup>21</sup> yn amharod i dderbyn cyngor y Cwnsler Cyffredinol ar bwynt o gyfraith, ymddengys fod y pwyllgor wedi medru troi am farn Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd ar y pwynt. Felly, ymddengys fod yr egwyddor wedi ei sefydlu: pan fo pwyllgor pwnc yn anhapus â barn y Cwnsler Cyffredinol ar bwynt o gyfraith, gall, mewn rhai amgylchiadau, ofyn am farn Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd ar y mater. Onid cam gwag yw datblygu dau ffocws cyfreithiol o fewn y Cynulliad? Y tro hwn cytunodd y Cynghorydd â barn y Cwnsler Cyffredinol. Ond yn y dyfodol fe all fod y ddwy farn gyfreithiol yn groes i'w gilydd ac yn y sefyllfa honno gall ymrafael sylweddol ddatblygu o fewn y Cynulliad. Casglais o ddarllen cofnod y Cabinet dyddiedig 13 Mawrth 2000, fod y Cabinet yn effro i'r perygl posibl. Ac ar sail y cofnod hwnnw, sylwodd Uned y Cyfansoddiad ar yr hyn a eilw yn 'emerging tensions between the Executive and the Office of the Presiding Officer'.<sup>22</sup> A bwrw bod tyndra yn datblygu rhyngddynt, efallai bod rhesymau eraill wrth ei wraidd, rhesymau sy'n ymwneud o bosib â natur y Cynulliad y codwyd cwestiynau amdano yn anerchiad pwysig Dafydd Elis Thomas yn Aberystwyth ar 9 Gorffennaf eleni.<sup>23</sup>

Da iawn yw cydnabod bod chwyldro tawel ar waith mewn llawer maes o ganlyniad i fodolaeth Cynulliad Cymru.<sup>24</sup> Ym myd gweinyddu'r gyfraith yng Nghymru gwelwyd datblygiadau mawr y bu galw amdanynt am flynyddoedd. Mae'r Llys Apêl Sifil yn cynnal gwrandawiaidau yng Nghymru ac mae'r Llys Apêl

Troseddol a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth wedi cytuno i gynnal gwrandawiadau yng Nghymru. Mae Llys Mercantil wedi'i sefydlu yng Nghaerdydd i wrando achosion masnachol. Mae achosion Rhestr Swyddfa'r Goron (sy'n cynnwys achosion arolwg barnwrol) i'w rhestru bellach yng Nghymru. Yn gynharach y pnawn yma ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol lanswyd Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Llys gan Mr Ustus Thomas, Barnwr Lywydd Cylchdaith Cymru a Chaer. Carwn gydnabod ein dyled i Mr Ustus Thomas am ei arweiniad adeiladol. Credaf y gellir disgwyl datblygiadau pellach yn y llysoedd yn y blynyddoedd sydd i ddod, megis darparu prif ffurflenni'r llysoedd yng Nghymru yn ddwyieithog ac estyn y ddarpariaeth yng nghymal 22 o Ddeddf Iaith 1993 i'r llysoedd sy'n eistedd yn Lloegr. Ac mae'r Gymdeithas hon ei hun yn cyfrannu fwyfwy at greu ymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfreithiol Cymreig. Dyma'r cyfle i ninnau, aelodau'r Gymdeithas, dalu ein diolch i Winston Roddick am ei wasanaeth gwerthfawr yn adeiladu mewn byr amser ar sylfaen y Grŵp Cyfreithiol yn y Swyddfa Gymreig gynt, adran gyfreithiol gadarn i gynnal y cynnydd sylweddol iawn yn llwyth gwaith cyfreithwyr y Cynulliad. Roedd y cynnydd yn galw am recriwtio a hyfforddi staff newydd i ddrafftio is-ddeddfwriaeth.<sup>25</sup>

Fe dreuliais dalp mawr o'm hamser y p'nawn yma ar beirianwaith y Cynulliad a'i hawl i ddeddfu. I gloi'r ddarlith rwyf am droi at safbwynt y Cynulliad ar y Gymraeg. Rydym yn gadarn o blaid hawl gyfartal holl ddinasyddion Cymru i iawnderau dynol sylfaenol, a rhydd Deddf Cymru [adran 107] ddyletswydd ar y Cynulliad i barchu'n wastad y Confensiwn Ewropeaidd ar iawnderau dynol. Yn gyson â'r egwyddor hon, rhaid gofyn beth yw gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru am le'r iaith Gymraeg yn y ddinasyddiaeth Gymreig? Hi wedi'r cyfan yw mamiaith lleiafrif sylweddol ein dinasyddion a'r allwedd i lawer agwedd ar fywyd Cymru. Mae pryder ymhlith llawer o garedigion yr iaith am nad ydi'r Cynulliad hyd yn hyn wedi rhoi sylw gwirioneddol i'r Gymraeg. Efallai y caf eich atgoffa mai diogelu'r Gymraeg oedd pennaf, onid holl nod Ymreolaeth i Gymru dri chwarter canrif yn ôl pan sefydlwyd Plaid Genedlaethol Cymru. Mae'n ffaith arwyddocaol na ddywedwyd rhyw lawer yn ystod ymgyrch y Refferendwm am le'r iaith Gymraeg yn seiliau'r achos dros ddatganoli. Tynnwyd pwnc yr iaith allan o wleidyddiaeth datganoli. Mae'n siomedig, ond nid efallai'n syndod llwyr, y bu'n rhaid aros hyd at fis yn ôl am y drafodaeth gyntaf ar yr iaith Gymraeg yn y Cynulliad (gw. *Y Cofnod*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 28 Mehefin a 4 Gorffennaf 2000). Sylwais yn arbennig ar araith werthfawr Cynog Dafis yn y ddadl, a bod yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant, Tom Middlehurst, yn derbyn y bydd yn rhaid ariannu'n effeithiol strategaeth y Bwrdd Iaith ar gyfer datblygiad yr iaith. Ymhellach, mae'n siomedig darllen bod y defnydd o'r Gymraeg ar lawr y Siambr wedi disgyn bob chwarter er adeg sefydlu'r Cynulliad.<sup>26</sup>

Mae Deddf Cymru ei hun yn glir bod y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg yng ngweinyddiaeth y Cynulliad [adran 47(1)]. Mae dyletswydd arno i wneud pob is-ddeddfwriaeth, gydag eithriad prin, yn ei ffurf drafft, yn Gymraeg ac yn Saesneg [adran 66(4)] a chyflawnwyd y ddyletswydd honno. Ymhellach, mae'r Ddeddf yn darparu y gall y Cynulliad 'wneud unrhyw beth i gefnogi yr iaith Gymraeg', hyd

yn oed y tu hwnt i ffiniau Cymru [adran 32(c)] a'r diwylliant Cymreig yng Nghymru [adran 32 (d)]. Er rhagored y darpariaethau hyn, cafwyd cyfeiriadau rhyfedd at y Gymraeg yn y fersiwn terfynol o ddrafft o ddogfen gais i'r Comisiwn Ewropeaidd am arian Amcan Un:

An emphasis on the distinctiveness of Welsh culture might be perceived as evidence of insularity and could discourage inward investors and lead to reduced opportunities for innovation.<sup>27</sup>

I lawer ohonom, dyma awgrym o naws gwasanaeth sifil trefedigaethol yn dal ar waith yng Nghaerdydd. Diolch yn bennaf i'r Wasg Gymraeg, cafwyd gwared o'r frawddeg cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Comisiwn, ond sut ar wyneb y ddaear y corfforwyd hi ynddi yn y lle cyntaf? Wedyn, pam y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd? A oedd yr aelodau a'u hymchwilywyr ifainc heb ei diwyd ddarllen, neu heb ddeall, heb wybod ei harwyddocâd? Ynteu, a gredai'r aelodau, ar y cychwyn, neu yn eu calon, mai rhwystr fyddai sôn am y Gymraeg yn y ddogfen holl-bwysig hon?

Credai'r diweddar J.E.Caerwyn Williams – y mae ysgolheictod y Gymraeg mor drwm ac amlwg yn ei ddyled – bod rhagolygon y Gymraeg ar un olwg yn oleuach ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif nag oeddent ar ei dechrau.<sup>28</sup> Serch hynny, fe gredai hefyd ei bod o hyd ar y groesffordd.<sup>29</sup> Roedd yn llefaru ar ran llawer ohonom.

Anodd gorbwysleisio yr arweiniad anhepgor y gall y Cynulliad ei roi trwy:

- (i) barchu a gweithredu'r egwyddor ganolog o gydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg yn ei weinyddiaeth ei hun;
- (ii) lunio polisi iaith cynhwysfawr ar draws pob maes polisi fel yr argymhellwyd gan y Bwrdd Iaith;
- (iii) gryfhau statws y Gymraeg ym mywyd Cymru, sy'n galw, mi gredaf, am adolygiad o effeithiolrwydd Deddf Iaith 1993 yn ogystal â'r adolygiad o bwerau ac adnoddau'r Bwrdd Iaith sydd eisoes ar y gweill gan Bwyllgor Pwnc; a
- (iv) diogelu parhad y fro naturiol Gymraeg.

Carwn, os caf, gyfeirio'n fyr at safon cyfieithu dogfennau swyddogol. Wrth drafod dogfennau swyddogol mae gan y cyfreithiwr, ar un olwg, lais go bwysig. Fe wŷr ef cystal os nad gwell na neb bod yn rhaid i ystyr pob gair mewn dogfen swyddogol fod yn fanwl gywir.

Mae geirfa'r Gymraeg – megis geirfa ieithoedd eraill – yn tyfu'n gyson.<sup>30</sup> Rhaid creu a safoni geiriau Cymraeg am eiriau sy'n gyfoes a newydd yn y Saesneg hithau, sy'n un o brif ieithoedd y byd, heb sôn am yr eirfa newydd ddi-baid yng nghyfraith yr UE. 'Does dim angen i mi ddweud fod pob cyfreithiwr a gweinyddwr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddyledus i'n cyd-gyfreithiwr, Robyn Léwis, am ei dermau cyfreithiol Cymraeg. Rydym yn dibynnu'n drwm ar ei eiriaduron cyfraith<sup>31</sup>; dyma ein beibl. Wrth gwrs rydym yn

croesawu'n fawr fod y Cynulliad ar y cyd â'r Gwasanaeth Llys yn ystyried sefydlu prosiect i fathu termau cyfreithiol newydd ac i safoni terminoleg gyfreithiol yn Gymraeg. Mae'r prosiect hwn yn gyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad yr iaith Gymraeg.<sup>32</sup>

Mae'n bryd i mi dewi. Pan oeddwn i'n ifanc, fel miloedd o Gymry ar hyd y canrifoedd, gwelwn Gynulliad Cenedlaethol Cymru o bell ac yn fy mreuddwydion. Ac fe'i gwelwn yn ei harddwch. Heb y gwelediad hwnnw ni chredaf y byddai'n Cynulliad Cenedlaethol wedi ei sefydlu. Bellach dyma'i weld yn gliriach fel ag y mae. 'Dyw e ddim heb ei wendidau. Nid yw Deddf Cymru wedi cwrdd â phob problem sy'n codi, ond hi ydi'r sylfaen – yr unig sylfaen – sy gennym i adeiladu arni. Codais nifer o gwestiynau sy'n galw am ateb. Gall yr ymateb arwain at gwestiynau eraill sydd yr un mor bwysig ac a all fod yn fwy cymhleth, ond a fydd, hwythau, yn galw am ateb boddhaol. Gorau po gyntaf y dechreuir ar y gwelliannau y gwelir eu hangen er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn fwyfwy effeithiol.

Nid yw proses datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dod i ben, eto. Bydd yn dilyn ei gwrs. Efallai mai'r datblygiad nesaf yn nhwf cyfrifoldebau'r Cynulliad fydd trosglwyddo iddo gyfrifoldebau mewn meysydd megis y gwasanaeth tân, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Byddai hynny'n bosibl o dan Ddeddf Cymru [adran 22] gyda chymeradwyaeth y Senedd; ni fyddai angen deddf sylfaenol newydd. Felly, a thanlinellu prif thema'r ddarlith, trwy adeiladu ar ei lwyddiant, gwelaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymddatblygu'n sefydliad teilwng o holl falchder cenedlaethol pobl Cymru.

## NODIADAU

- <sup>1</sup> Yr Arglwydd Irvine, '*Government's Programme of Constitutional Reform*', The Constitution Unit Annual Lecture, Tachwedd 1998, t. 5.
- <sup>2</sup> Y corff annibynnol a sefydlwyd yn Llundain yn 1995 i astudio a pharatoi cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu datganoli. Gw. *Delivering Constitutional Reform, 1996*.
- <sup>3</sup> Y corff amhleidiol a sefydlwyd yn 1990 yn yr Alban i ddatblygu polisi cyfansoddiadol ar gyfer yr Alban. Methwyd â sefydlu corff cyfatebol ar gyfer Cymru.
- <sup>4</sup> *Report of the Joint Consultative Committee on Constitutional Reform*, Labour /Liberal Democratic Parties, 1997.
- <sup>5</sup> Gorch 4713, *Publication of the draft Regulatory Reform Bill*, Ebrill 2000.
- <sup>6</sup> Gw. Arglwydd Dahrendorf, *Hansard* (Tŷ'r Arglwyddi), Cyf. 801, 29 Mawrth 2000, c. 818-819. Ceir crynodeb o'r sefyllfa yn *Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Dŷ'r Arglwyddi*, Pennod 7, Gorch. 4537.
- <sup>7</sup> Winston Roddick, *Croesi'r Ffordd*, Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, 2000.
- <sup>8</sup> *Y Cofnod*, 24 Mai 2000, *Datganiad ar Is-Ddeddfwriaeth* gan y Trefnydd Busnes, Andrew Davies, tt. 1-2. Gw. hefyd erthygl gan y Trefnydd Busnes, *Western Mail*, 16 Mai 2000.
- <sup>9</sup> *Cofnodion Pwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad*, para. 1.1, 6 Mehefin 2000, t. 1.
- <sup>10</sup> *Y Cofnod*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 13 Mehefin 2000, tt. 33-36.
- <sup>11</sup> *Ibid*, *Y Datganiad ar Is-ddeddfwriaeth*
- <sup>12</sup> *Western Mail*, 15 Mai 2000, t. 8.
- <sup>13</sup> *Cofnodion Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar*, 12 Ebrill 2000, t. 11, para. 6.2, 12 Ebrill 2000. Gw. hefyd *Devolution 'A Dynamic, Settled Process'?* Gol. John Osmond, Institute of Welsh Affairs, Rhagfyr 1999, tt. 14-1.

- <sup>14</sup> Codais y dyfyniad o *Monitor*, The Constitution Unit Bulletin, Mehefin 2000, t. 3.
- <sup>15</sup> *Y Cofnod*, *ibid*, tt. 7-8, 8-9.
- <sup>16</sup> Ni honnaf fod y rhestr hon yn gyflawn, ond bydd o help i gyfeirio at y Mesurau Cyhoeddus canlynol: Carers and Disabled Children Bill, Care Standards Bill, Children (Leaving Care) Bill, Countryside and Rights of Way Bill, Fire Prevention Bill, Freedom of Information Bill, Fur Farming (Prohibition) Bill, Government Resources and Accounts Bill, Learning and Skills Bill, Local Government Bill, Political Parties, Elections and Referendums Bill, Postal Services Bill, Protection of Animals (Amendment) Bill, Race Relations (Amendment) Bill, Regulations of Investigatory Powers Bill, Sex Discrimination (Amendment) (No.2) Bill, Transport Bill, Utilities Bill.
- <sup>17</sup> HC 201, 15 Chwefror 2000, *Ar goll Mewn Gofal*; Adroddiad y Tribiwnlys Ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn hen ardaloedd cyngor sir Gwynedd a Chlwyd er 1974. Crynodeb Cymraeg/Saesneg.
- <sup>18</sup> Cymeradwywyd gan y Cynulliad ar ei ffurf drafft 20 Chwefror 2000, ond nid oedd yn ei ffurf derfynol erbyn dechrau Gorffennaf 2000. Ynglŷn ag ymgynghori ynghylch is-ddeddfwriaeth fe'n cyfeiriwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn Llundain mewn termau hynod o gyffredinol at y concordatiau; *Hansard* (Tŷ'r Cyffredin), 17 Mai 2000, WA, col.141W.
- <sup>19</sup> Mae'r gair 'llywydd' yn gryfach na '*presiding officer*', sef y term a ddefnyddir yn Neddf Cymru am y swydd [adran 52]. Ni ddiffiniwyd nodweddion y swydd yn y Ddeddf a thenau iawn ydi'r disgrifiad a geir yn y Rheolau Sefydlog. Trafodir nodweddion a natur swydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yng nghyflwr safonol Erskine May, *Parliamentary Practice*, (Argraffiad 22), tt. 188-193. Ond mae natur y Cynulliad, sy'n gorff corfforaethol newydd yn wahanol i natur Tŷ'r Cyffredin sy'n rhan o'r Senedd a'i channoedd o flynyddoedd o draddodiad. Gw. hefyd *Devolution Relaunched*. Gol John Osmond, Institute of Welsh Affairs, Mawrth 2000, tt. 19-24
- <sup>20</sup> Gw. Ben Bowen Thomas, 'Y Cadeirydd' yn *Mr. Cadeirydd*, Abercynon, 1965, tt. 7-12.
- <sup>21</sup> *Ibid.*, Cofnodion Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed.
- <sup>22</sup> *Ibid.*, *Monitor*
- <sup>23</sup> Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, *Y Cynulliad Cenedlaethol, Blwyddyn Mewn*

*Grym?*; Sefydliad Gwleidyddol Cymru Prifysgol Cymru Aberystwyth, 8 Gorffennaf 2000.

- <sup>24</sup> Fel y rhagwelodd y Cwnsler Cyffredinol yn ei ddarlith gyfreithiol yn Eisteddfod Môn, *Croesi'r Ffordd*, *Ibid.* Ac fel y rhagwelodd y Barnwr Dewi Watkin Powell yn ei ddarlith gyfreithiol yn Eisteddfod Bro Ogwr, *Y Gyfraith yng Nghymru: Ddoe, Heddiw ac Yfory*, Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, 1998. Gw. hefyd erthygl werthfawr Richard Rawlings, 'Living with Lawyers', *Institute of Welsh Affairs – Agenda*, Haf 1999, tt. 2-4.
- <sup>25</sup> *Ibid.*, *Croesi'r Ffordd*.
- <sup>26</sup> *Y Cymro*, 8 Gorffennaf 2000, 'Cadw Golwg ar y Cynulliad', Owen Thomas, t. 4.
- <sup>27</sup> Codwyd y dyfyniad o golofn fisol golygydd *Barn*, Rhif 447, Ebrill 2000, 'Evidence of Insularity...', t. 6.
- <sup>28</sup> Gw. *Geiriadur yr Academi*, 1995, 'Rhagair', t. vi.
- <sup>29</sup> Gw. *Ysgrifau Beirniadol* Cyf. XXIII, 1997, 'Golygyddol', tt. 9-15.
- <sup>30</sup> Mae geirfa'r Gymraeg 'yn tyfu, yn fwy yn awr o bosibl nag mewn unrhyw gyfnod yn ei hanes, wrth iddi gael ei defnyddio fwyfwy ym mhob un o feysydd y byd modern'. Gareth A. Bevan, *Gwaith Pwysfawr a Llafurus yw cyfansoddi Geirlyfr, Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1944*, t. 34.
- <sup>31</sup> Robyn Léwis, *Termau Cyfraith*, 1972; *Geiriadur y Gyfraith*, 1992; *Atodlyfr Cyntaf Geiriadur y Gyfraith*, 1996; *Geiriadur Newydd y Gyfraith* (yn y wasg).
- <sup>32</sup> Ceir y ddadl dros sefydlu corff safoni terminoleg Gymraeg yn *Adroddiad y Panel ar Gymraeg Swyddogol* a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Gorffennaf 1995.